



Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

# Marchnata eich Eisteddfod a Chodi Arian - Rhai Syniadau

[www.steddfota.org](http://www.steddfota.org)



# MARCHNATA

## Y WASG

### Yn Genedlaethol

Golwg

Blwch Post 4, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7LX; 01570 423529; ebost ymholiadau@golwg.com; ebost ar gyfer y calendr: calendr@golwg.com. Anfonwch hefyd i'r wefan: www.golwg360.com (drwy'r wefan honno)

Y Cymro,

ebost drwy'r wefan: [www.y-cymro.com/cysylltu-a-ni](http://www.y-cymro.com/cysylltu-a-ni)

9 Bank Place

Porthmadog

Gwynedd

LL49 9AA Ffôn: 01766 515514

Daily Post,

Eryl Crump 01492 574491 - [erylcrump@dailypost.co.uk](mailto:erylcrump@dailypost.co.uk)

Yr Herald Cymraeg

(drwy'r cysylltiadau Daily Post uchod – ymddangos gyda'r papur hwnnw bod dydd Mercher)

Y Wawr,

Rhiannon Parry, Bryn-Neuadd, Ffordd Clynnog, Penygroes, Caernarfon. LL54 6NS

(01286 880 353) e-bost: [rhiannonp18@btinternet.com](mailto:rhiannonp18@btinternet.com)

Y Glec,

Meirion MacIntyre Huws

Brysgyni Ganol, Capel Uchaf, Clynnogfawr, Gwynedd LL54 5DH

01286 660 364

07887 654 251 [post@yglec.com](mailto:post@yglec.com)

Barddas,

Elwyn Edwards, Swyddog Gweinyddol, Bod Aeron, Heol Pen-sarn, Y BALA Gwynedd LL23 7SR

01678 520378; ebost drwy'r wefan

[www.barddas.com/cysylltu](http://www.barddas.com/cysylltu)

Taliesin

Ffôn: 029 2047 2266

Ffacs: 029 2049 2930

ebost: [taliesin@academi.org](mailto:taliesin@academi.org)

Yr Academi Gymreig

Ty Mount Stuart

Sgwâr Mount Stuart

Caerdydd

CF10 5FQ

Barn,

Swyddfa Barn,

Y Llwyfan,

Ffordd y Coleg,

CAERFYRDDIN,

SA31 3EQ.  
Swyddfa - swyddfa@cylchgrawnbarn.com 01267 245676  
Golygyddion - golygyddol@cylchgrawnbarn.com

Llafar Gwlad  
llyfrau@carreg-gwalch.com;

## **Yn Lleol**

Cambrian News, 7 Y Parc Gwyddonol, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AH; 0190 615000; Dylan@cambrian-news.co.uk

Tivy Side, Mwldan Creadigol  
Bath-house Road  
Aberteifi  
Ceredigion  
SA43 1JD  
01239 614343 ebost - sue.lewis@tivysideadvertiser.co.uk

North Wales Weekly News, Iolo Griffiths 01492 574434 - nwales.communitynews@northwalesnews.co.uk

County Times  
Gellir anfon ebost i ddesgiau newyddion nifer o bapurau'r grwp yma (County Times; Leader, North Wales, Chronicle ayb) drwy'r wefan: <http://www.countytimes.co.uk/about/contact/contactnewsdesk.aspx>;  
neu gysylltu unigol gyda'r gwahanol bapurau:

County Times  
11c Broad St, Y Trallwng, Powys SY21 7LE  
01938 553354

Leader - Wrexham and Flintshire  
Parc Busnes Yr Wyddgrug, Yr Wyddgrug, Sir Fflint, CH7 1XY  
01352 707707

North Wales Chronicle  
302 Y Stryd Fawr, Bangor Gwynedd LL57 1UL  
01248 387400

Carmarthen Journal,  
18 Stryd y Brenin, Caerfyrddin, SA31 1BN  
01267 227 222  
golygydd: cathryn.ings@swwmedia.co.uk  
Alex Smith – Gohebydd Dyffryn Aman: alex.smith@swwmedia.co.uk  
01267 227 233;  
Graeme Wilkinson – Gohebydd Dyffryn Tywi a Chaerfyrddin:  
graeme.wilkinson@swwmedia.co.uk  
01267 227 234  
Ian Lewis – Prif Ohebydd ian.lewis@swwmedia.co.uk 01267 227298

County Echo (Sir Benfro)  
01348 874445 –ebost- edit@countyecho.co.uk, neu gellir anfon stori drwy'r wefan:  
<http://www.countyecho.co.uk/your-stories.cfm>

Llanelli Star, 11 Cowell Street, Llanelli SA15 1UU, 01554 745 334; ebost desg newyddion:  
journal.star@swwmedia.co.uk; gohebydd: geraint.thomas@swwmedia.co.uk  
01554 745 307

- Mae cynnwys datganiadau i'r Wasg yn ffordd rad ac am ddim i hysbysebu eich eisteddfod leol. Er enghraifft gellir cynnwys datganiad i'r wasg a llun enillydd cadair eich Eisteddfod y llynedd a'i ddanfon i'r wasg rhyw bythefnos cyn yr Eisteddfod. Cofiwch fod papurau yn derbyn llawer o ddatganiadau felly byddwch yn gryno - mae'n werth cynnwys y manylion holl bwysig (enw'r 'steddfod, ble a phryd) yn y paragraff cyntaf (gan fod golygyddion yn aml yn torri datganiadau yn hallt). Yn eithaf aml maent yn rhoi'r paragraff cyntaf a'r olaf. Rhowch fanylion cyswllt hefyd yn y paragraff olaf.
- Ceisiwch feddwl am stori fer ddifyr i'w rhoi yn yr ail baragraff - e.e. oes gennych 'seleb' yn beirniadu neu'n llywydd?; rhyw gystadleuaeth ddifyr, anghyffredin?; os ydych yn ysgrifennu yn Gymraeg falle gellid cynnwys limrig a fu'n fuddugol y flwyddyn cynt gan ddweud eich bod yn disgwyl twr eto eleni; falle sylw i ryw unigolyn fu'n cystadlu yn eich eisteddfod ac sydd bellach yn enw mawr; rhywun sydd wedi goresgyn rhyw anhawster mawr ac a fydd yn cystadlu eleni; rhywun sydd wedi ennill yn y Genedlaethol ond sy'n dal i ddod i'ch eisteddfod leol chi i gystadlu, ac yn y blaen – ond mae *un* stori yn ddigon - fel arfer mae golygyddion yn fwy tebygol o roi lle i rywbeth byr – ni ddylai unrhyw ddatganiad fod yn fwy nag un ochr A4.
- Y ffordd orau i ddanfon at bapurau yw drwy e-bost (gan atodi llun), ond mae'n werth ffonio papur ymhen rhai oriau i sicrhau eu bod wedi derbyn yr e-bost
- Weithiau mae llun da a chapsiwn (sy'n nodi pryd a ble mae'r eisteddfod) yn llawn mor effeithiol - ac eto, efallai, yn fwy tebygol o gael lle yn y papur. (e.e. llun o enillydd cadair y llynedd; llun o'r beirniad neu'r llywydd os yw'n adnabyddus; llun o blentyn bach ciwt a enillodd y llynedd. Cofiwch y dylech sicrhau caniatâd y person dynnodd y ffoto, y person/bobl sydd yn y ffoto (yn enwedig os taw plant ydynt), a pherchennog y limrig neu unrhyw waith llenyddol/celf arall a ddefnyddir.
- Mae hysbysebu'n medru bod yn ddrud iawn ond mae *Golwg a'r Cymro* nawr ac yn y man yn gwneud atodiad Eisteddfodol ac yn cynnig hysbysebion am bris rhesymol. Tybed hefyd a oes yna fusnes fyddai'n fodlon noddi eich hysbyseb yn eich papur lleol? (Byddai gofyn i chi gydnabod ei nawdd ar waelod yr hysbyseb)?

## Papurau Bro

- Hysbysebu mewn Papurau Bro ardaloedd cyfagos yn ogystal â'ch Papur Bro lleol. (Ceir rhestr o gysylltiadau ar wefan a dyddiadur Y Lolfa). [www.ylolfa.com](http://www.ylolfa.com)
- Cynnwys pamffledyn gwybodaeth o fewn eich Papur Bro leol i hysbysebu'r eisteddfod
- Cofiwch fod angen cysylltu â'r papurau bro mewn digon o bryd (o leiaf fis o flaen llaw)

## Y Cyfryngau

- Radio Cymru – rhaglenni megis Geraint Lloyd ([geraint@bbc.co.uk](mailto:geraint@bbc.co.uk)), John ac Alun ([johnacalun@bbc.co.uk](mailto:johnacalun@bbc.co.uk)), Iola Wyn ([iolawyn@bbc.co.uk](mailto:iolawyn@bbc.co.uk)), a'r Digwyddiadur ([digwyddiadau@bbc.co.uk](mailto:digwyddiadau@bbc.co.uk)) neu lenwi'r ffurflen diwyddiadau ar lein ar [www.bbc.co.uk/radiocymru/digwyddiadau](http://www.bbc.co.uk/radiocymru/digwyddiadau), neu ffonio 03703500600
- Radio Wales – [radio.wales@bbc.co.uk](mailto:radio.wales@bbc.co.uk)
- Radio Ceredigion ([studio@radioceredigion.com](mailto:studio@radioceredigion.com)),
- Sir Gâr ([studio@radiocarmarthenshire.com](mailto:studio@radiocarmarthenshire.com)) a Sir Benfro ([studio@radiopembrokeshire.com](mailto:studio@radiopembrokeshire.com))
- Heart 103 – Môn a Gwynedd – neges ebost drwy'r wefan [www.heart.co.uk/cymru/contact](http://www.heart.co.uk/cymru/contact) neu 01248 673400
- Heart 103.4 – Gogledd Ddwyrain Cymru – neges ebost drwy'r wefan [www.heart.co.uk/nothwest/contact](http://www.heart.co.uk/nothwest/contact) neu 01978 722200
- Radio Hafren – neges ebost drwy [www.radiohafren.co.uk/contact.html](http://www.radiohafren.co.uk/contact.html) neu ffonio 01686 623777
- S4C: Prynawndda ([prynhawnda@tinopolis.com](mailto:prynhawnda@tinopolis.com)); Heno ([heno@tinopolis.com](mailto:heno@tinopolis.com)) neu drwy ffonio 01554 880880

## Gwefannau/Cysylltiadau Electroneg

- Gwefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru - anfonwch ddyddiad yr eisteddfod atom, y rhaglen pan fo'n barod, a chanlyniadau a lluniau ar ôl yr eisteddfod, a darnau o waith llenyddol, (cofiwch gael caniatâd i anfon y gwaith llenyddol a lluniau atom)
- Gwefan Mentrau Iaith
- Gwefannau Corau
- Gwefannau Eisteddfodau unigol
- E-byst cystadleuwyr - gofyn i gystadleuwyr adael eu cyfeiriad e-bost fel eich bod yn medru
- Rhwydwaith e-byst - tybed a fyddai'r fenter iaith yn fodlon anfon e-bost ymlaen i'w cysylltiadau ar eich rhan? Oes un person yn eich ardal chi a nifer o gysylltiadau ac a fyddai'n anfon rhywbeth ymlaen drosoch?
- Facebook/Twitter
- Golwg 360

# YN LLEOL

## Bod yn weledol

Mae'n bwysig bod cymaint o bobl a phosib yn ymwybodol bod eich eisteddfod yn cael ei chynnal - cyn y diwrnod ac ar y diwrnod hefyd. Mae'r rhan fwyaf o'r syniadau isod yn ymwneud â marchnata eich eisteddfod o flaen llaw, ond ar ddiwrnod yr eisteddfod dylai pobl fod yn ymwybodol bod yr eisteddfod yn digwydd. Gellid ceisio sicrhau hyn drwy:

## Baneri

Hongian baner mewn lle amlwg e.e. ar draws y stryd fawr, (byddai'n rhaid cael caniatâd y cyngor i wneud), ar gylchfan, neu rywle amlwg arall. Mae baneri plastig yn weddol ddrud i'w prynu ac felly byddai'n gall cael un y gellid ei defnyddio'n flynyddol e.e. "Eisteddfod Cwmtwrch Dydd Sadwrn Yma - Cefnogwch". Defnyddiwch cyn lleied o eiriau a phosib ar faner o'r fath gan taw pasio yn y car bydd y rhan fwyaf o bobl ac felly ni ellir darllen rhywbeth hir. Bydd unrhyw un sydd â diddordeb wedyn yn medru canfod ym mhle, faint o'r gloch ayb o bosteri a fydd eisoes gobeithio i'w gweld ymhob siop/tafarn/hysbysfwrdd/fffenestri tai y pentref. Cofiwch bod modd i Gymdeithas Eisteddfodau Cymru ddylunio poster i'ch eisteddfod chi - cysylltwch â Mei.

## Arwyddion

Mae modd gwneud arwyddion cartref wrth gwrs, heb felly fynd i lawer o gost. Mae cyfres o arwyddion yn medru bod yn effeithiol wrth ochr y ffordd e.e. y cyntaf yn dweud "Peidiwch, yr ail yn dweud "Colli", y trydydd "Eisteddfod" ayb

Rhowch arwydd mawr o flaen y neuadd, neu ble bynnag y cynhelir eich eisteddfod. Mae hyn yn denu sylw a hefyd yn groesawgar. Os ydy'r neuadd yn ddiaffordd beth am arwyddion ar hyd y ffordd/stryd i gyfeirio pobl at y neuadd?

## Ffotograffau

Tynnwch ffotograffau ar y dydd i'w defnyddio ar wefan steddfota, ond hefyd fel arf marchnata ar gyfer eisteddfod y flwyddyn nesaf. Cofiwch ofyn caniatâd y bobl sydd yn y lluniau). Byddai rhoi nodyn yn eich rhaglen yn dweud y byddwch yn cymryd lluniau a gofyn i unrhyw un nad ydynt am fod mewn llun yn un ffordd o wneud hyn. Mae'r un drefn i'w dilyn os ydych am wneud fideo o ambell gystadleuaeth. Mae ffotograffau o waith celf hefyd yn werth eu cael.

# RHAI SYNIADAU I DDENU CYSTADLEUWYR

## Y Cystadlaethau:

- Bwrw golwg yn flynyddol ar eich cystadlaethau - os nad oes nifer yn cystadlu falle dylid ystyried hepgor ambell gystadleuaeth a meddwl am gystadlaethau fyddai'n fwy tebygol o ddenu
- Ystyried y grwpiau sy'n bodoli yn eich ardal yn barod a'r fath gystadlaethau fyddai'n eu denu e.e. os oes dosbarth dysgwyr beth am gael gair gyda'r tiwtor i weld pa fath o gystadlaethau fyddai'n apelio; os oes dosbarth trefnu blodau beth am gael cystadleuaeth iddyn nhw; os oes côr beth am ofyn a fyddent yn codi nifer o bartïon i gystadlu ar gystadleuaeth ensemble canu; os oes band beth am gystadlaethau offerynnol ayb. Cofiwch fod cystadlaethau fel ffotograffiaeth a chelf yn galluogi dysgwyr a'r di-Gymraeg i gystadlu hefyd.
- Cynnwys llai o gystadlaethau ac felly cynyddu gwobrau ariannol er mwyn denu cystadleuwyr
- O'r adborth a gawn – yn arbennig oddi wrth bobl ifanc – mae'n llawer iawn gwell ganddynt gael gwobrau ariannol na thariannau ayb
- Caniatáu i bobl anfon ceisiadau i'r cystadlaethau gwaith cartref atoch drwy e-bost os dymunant (os nad yw'r ysgrifennydd yn defnyddio e-bost mae'n siŵr bod rhywun o'r pwyllgor yn medru eu derbyn (neu gofynnwch i rywun lleol sy'n defnyddio ebost i ymuno â'r pwyllgor er mwyn darparu'r gwasanaeth yma)
- Ystyried defnyddio e-bost [enw eich eisteddfod]@steddfota.org (cysylltwch â ni os am wneud hyn) - bydd hyn yn arbed gorfod rhoi eich cyfeiriad e-bost personol i bawb ac yn ffordd arall o hyrwyddo enw'r eisteddfod
- Cydweithio gyda Chlybiau Ffermwyr Ifanc Lleol ac Aelwydydd yr Urdd
- Gofyn i bobl o'r gwahanol grwpiau yn eich ardal, e.e. Merched y Wawr, W.I, côr lleol, Clwb Ffermwyr Ifanc, ysgolion lleol ac yn y blaen ddarparu rhywun i'w cynrychioli ar eich pwyllgor trefnu - er mwyn ceisio sicrhau bod yr eisteddfod yn apelio i bawb a bod y grwpiau hyn wedyn yn cystadlu/dod i wrando ar y dydd. Gofyn i bawb ar y pwyllgor hybu'r eisteddfod o fewn eu grwpiau/gweithle gan osod posteri, mynd a rhaglenni ayb.

## Y Rhaglen:

- Sicrhau bod eich rhaglen yn ddeniadol i'r llygad, yn barod mewn da bryd ac ar gael yn eang – siopau lleol, llyfrgell, siop lyfrau, ayb
- Os oes modd i'r rhaglen fod yn barod erbyn yr Eisteddfod Genedlaethol mae nifer o gystadleuwyr yn dod i stondin y gymdeithas i'w casglu

- Anfon y rhaglen at Mei drwy'r e-bost os ar gael yn ddigidol (mei@steddfota.org) neu drwy'r post os yw ar bapur yn unig er mwyn iddo ei rhoi ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru www.steddfota.org
- Casglu e-byst/cyfeiriadau cystadleuwyr fel eich bod yn medru anfon Y Rhaglen atynt
- Danfon rhaglenni'r eisteddfod i athrawon canu ac adrodd lleol. Hefyd danfon rhaglenni i'r Ysgolion Cynradd ac Uwchradd lleol
- Rhoi rhaglenni yng nghyntedd neuaddau Eisteddfodau eraill yr ardal
- Cynnwys manylion eich eisteddfodau agosaf ar gefn eich rhaglen eisteddfod chwi a gofyn iddyn nhw wneud yr un peth i hysbysebu eich eisteddfod chi

### Denu Dysgwyr

- Siarad gyda thiworiaid i geisio ennyn diddordeb dysgwyr yn eich eisteddfod o ran bod ar y pwyllgor trefnu, cystadlu ar y gwaith cartref ac ar y llwyfan
- Gyda chystadlaethau llwyfan gellid ystyried defnyddio'r testunau sydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol (bydde rhai, o bosib, yn croesawi'r cyfle i ymarfer cyn yr eisteddfod fawr)
- Cystadlaethau gwaith-cartref i ddysgwyr - dylid gofyn iddynt nodi eu lefel (e.e. mynediad (dysgwyr newydd) i Uwch (dysgwyr mwy profiadol) - neu greu cystadlaethau i'r gwahanol lefelau. Mae'n bwysig cysylltu â thiworiaid lleol er mwyn denu cystadleuwyr - falle bydde tiwtoriaid yn barod i osod y testunau fel gwaith cartref neu ddsbarth.
- Dylid sicrhau bod beirniaid cystadlaethau dysgwyr yn deall dysgwyr (hynny yw wedi dysgu Cymraeg i grwpiau neu fod yn ddysgwyr ei hunain)

### Rhai syniadau ar sut i ddenu mwy o gynulleidfa

- Paratoi pamffled hysbysebu/posteri ar gyfer hysbysfyrdau/siopau/cymdeithasu lleol, e.e. Merched y Wawr, Sefydliad y Merched, Clwb Rygbi, Cylch Cinio, a hefyd dosbarthu'r taflenni drwy ddrysau pobl yn eich pentref chi.  
**Mae modd i Gymdeithas Eisteddfodau Cymru helpu i lunio taflen a phoster - rhowch wybod os hoffech i ni wneud.**
- Hysbysebu yn y capeli lleol, Cylch Cinio, Merched y Wawr, W.I., ac yn y blaen
- Cael arweinyddion da - sydd ddim yn llusgo, felly pobl ddim yn diflasu ac yn cadw draw. Falle ystyried cael rhywun enwog i arwain byddai'n denu cynulleidfa.
- Mynychu rhai eisteddfodau yn yr ardal i ddangos cefnogaeth ac i ddenu cefnogaeth yn ôl
- Cynnwys llawer o gystadlaethau ar gyfer ysgolion lleol, gan ddisgwyl y bydd y rhieni yn cefnogi hefyd
- Cynnwys cystadleuaeth ar gyfer parti canu/adrodd i gymdeithas/grwpiau lleol
- Gwneud yn siŵr bod cystadlaethau ar gael at ddant pawb - canu/adrodd, dawnsio o bob math a chystadlaethau ar gyfer y dysgwyr- falle ystyried cystadleuaeth fel Sgen Ti Dalent? sy'n galluogi unrhyw un i gystadlu e.e. gellid gwneud triciau, dawnsio, dweud jôcs ac ati
- Gwneud yn siŵr nad yw'r Eisteddfod yn mynd ymlaen yn rhy hwyr
- Paratoi cyfieithwyr os oes angen – i bawb gael deall beth sydd yn mynd ymlaen
- Beth am arddangos y gwaith celf/llynyddol am y dydd fel bod pawb yn medru dod i'r neuadd (neu efallai ystafell gyfagos i werthfawrogi'r cynnyrch)
- Os oes rhai adegau o'r dydd yn dawel o ran cynulleidfa efallai dylid ystyried symud un neu ddwy o gystadlaethau poblogaidd i'r adegau hynny.
- Os oes Cadeirio yn eich eisteddfod gellid ystyried trefnu un o'r cystadlaethau mwyaf poblogaidd e.e. côr yn syth cyn neu ar ôl y seremoni

## CODI ARIAN

Mae'r rhan fwyaf o fudiadau gwirfoddol yn dibynnu am eu bodolaeth ar waith codi arian o ryw fath. Efallai byddai'n help i'ch pwyllgor ystyried:

- Faint o arian sydd eisiau ei godi'n flynyddol i sicrhau parhad yr eisteddfod
- O ble rydym yn cael ein harian yn awr?
- A oes unrhyw ffynonellau ariannol neu fathau o waith codi arian sydd heb eu caniatáu dan ein rheolau (e.e. loteriau a bingo)
- Faint o arian sydd gennym wrth gefn
- Ydy eisteddfodau'r pum mlynedd ddiwethaf wedi gwneud neu golli arian?
- Os oes gwahaniaeth mawr rhwng ffigurau un flwyddyn a'r llall beth oedd achos hynny?

Mae llawer iawn o wahanol ddulliau o godi arian ar gael - yn cynnwys ffynonellau ariannu llywodraeth ac

ymddiriedolaethau elusennol (e.e. Pantyfedwen) yn ogystal ag apeliadau cyhoeddus a ffeiriau sborion. Mae pob ardal yn wahanol.

Mae Cymdeithas Eisteddfodau Cymru o eleni ymlaen yn cynnig un ffordd i chi godi arian. Fel y gwyddoch mae'r Gymdeithas yn trefnu Raffl flynyddol lle anfonir 10 llyfryn atoch gan ofyn i chi eu gwerthu ar ran y Gymdeithas. Wel eleni, gofynnir eto i chi werthu 10 llyfryn dros y Gymdeithas (hynny yw gwerth £10) - mae hyn yn helpu i dalu am stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol sy'n elwa pawb, ond ar ben y 10 llyfr medrwch archebu mwy o lyfrau oddi wrthym a chadw'r arian a godwch o'r gwerthiant hynny. Y Gymdeithas fydd yn trefnu'r drwydded a'r gwobrau fel cynt. Felly os medrwch gael nifer o bobl yn eich ardal chi i werthu'r tocynnau raffl tros och medrwch godi rhai cannoedd i goffrau eich eisteddfod chi.

## Nawdd lleol

Mae rhan fwyaf o eisteddfodau yn dibynnu ar nawdd lleol. Mae sawl agwedd posib:

- Gofyn i fusnesau lleol dalu am hysbysebion yn nhaflen yr eisteddfod
- Gofyn i fusnesau a mudiadau lleol noddi cystadlaethau (mae ambell i eisteddfod yn llwyddo cael nawdd gwahanol fusnesau/mudiadau ar gyfer pob cystadleuaeth) e.e. Merched y Wawr, W.I, Cylch Cinio, Rotari, Clwb Busnes ynghyd â busnesau yn yr ardal
- Gofyn am gyfraniadau i'r coffrau cyffredinol gan fusnesau ac unigolion
- Gofyn am gyfraniadau eraill e.e. bwyd; llety i'r beirniaid; benthyg offer sain; gofyn i argraffwyr/dylunwyr i helpu gyda chynhyrchu posteri ayb
- Gofyn i'ch papur bro lleol noddi cystadleuaeth (efallai cystadleuaeth lenyddol y medrent wedyn ddefnyddio'r cynnyrch yn y papur bro)
- Gofyn am nawdd oddi wrth eich Cyngor Sir/Tre/Cymuned (mae Cyngor Sir Gâr yn dosbarthu arian drwy Gymdeithas Eisteddfodau Cymru)

Os ydych yn trefnu digwyddiad codi arian i'ch eisteddfod dyma rai syniadau:

- Talwrn y Beirdd; swper neu ginio cawl (tybed a fyddai modd gwneud hyn mewn cydweithrediad a chapel neu ryw fudiad arall er mwyn sicrhau cynulleidfa); bore coffi (os oes gennych nifer o bobl gefnogol efallai gellid gofyn iddynt drefnu bore coffi yn eu cartrefi a gwahodd ychydig ffrindiau - mae modd trefnu hyn ar ffurf pyramid lle mae'r person cyntaf yn gwahodd 6 ffrind, yna'r chwech hynny yn gwahodd pum ffrind arall, y pump hynny yn gwahodd 4 ffrind ac yn y blaen...), digwyddiad noddedig (e.e. chwarae'r piano - falle gellid denu nifer o bobl ifanc i helpu i wneud hyn a chodi ymwybyddiaeth o'r eisteddfod ar yr un pryd); gofyn i rai o enillwyr blynyddoedd cynt ddiddanu am noson a threfnu raffl neu ocsiwn fach i gyd-fynd a hyn, gweithio mewn partneriaeth gydag elusen neu ysgol i drefnu digwyddiad codi arian - byddai hyn yn ysgafnhau'r baich trefnu ac yn cynyddu'r gynulleidfa.
- **Os oes gyda chi rai syniadau codi arian sydd wedi gweithio'n dda beth am eu rhannu gyda ni drwy wefan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru: [www.steddfota.org](http://www.steddfota.org)**

## Nawdd oddi wrth Gyrff Cyhoeddus/Ymddiriedolaethau

- Mae Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen yn medru cefnogi rhai eisteddfodau lleol (gweler y wefan: [www.jamespantyfedwen.org.uk](http://www.jamespantyfedwen.org.uk); rhif ffôn 01970 612806).  
Os ydych yn gymwys medrwch, ar hyn o bryd, gael hyd at £500 (yn seiliedig ar 30% o'r gwobrau ariannol a roddwyd gennych yn y flwyddyn gynt)

Dyma rai cyngorion cyffredinol:

## Y cynllun busnes a cheisiadau am grantiau

- Os am geisio am grant fel arfer mae angen cael 'cynllun busnes' neu 'gynllun datblygu.' Mae'n rhesymol cyflwyno disgwyl i unrhyw gais am grant sylweddol (ychydig o filoedd o bunnoedd neu fwy) cael ei chyflwyno gyda dogfen sy'n disgrifio:

Pam fod angen yr arian ar eich Eisteddfod  
Sut byddwch yn gwario'r arian  
Pa effaith a gaiff y nawdd ar eich Eisteddfod  
Pa wahaniaeth a wnaiff i'r rhai yr ydych yn ceisio eu helpu (canlyniadau)



## Amserlen

Bydd unrhyw gais yn fwy tebygol o lwyddo os ydych yn medru dangos yn glir

- Bod eich eisteddfod yn rhoi cyfle i bobl ifanc fagu hyder a pherfformio'n gyhoeddus
- Bod parhad yr eisteddfod yn bwysig i'r cystadleuwyr a'r gynulleidfa ac yn rhan o barhad y diwylliant Cymreig yn eich ardal chi
- Bod yr eisteddfod yn apelio i bobl o bob oed, i'r Cymry Cymraeg a'r Dysgwyr hefyd, ac yn dod a phawb at ei gilydd
- Bod yr eisteddfod yn sicrhau bwrlwm yn eich bro
- Eich bod yn cyd-weithio gyda grwpiau eraill er mwyn sicrhau eisteddfod lwyddiannus, e.e. gyda'r ysgolion lleol, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Capeli, Aelwydydd yr Urdd, Busnesau, Mudiad Meithrin, Cylch Cinio, Fforwm 50+ ac yn y blaen.

Prin fod angen dweud y bydd gennych well cyfle os bydd gennych ddelwedd dda yng ngolwg cyrff ariannu a rhoddwyr - ond mae'r gwrthwyneb i hynny'n wir ac yn bwysicach ei gydnabod. Os nad oes neb wedi clywed sôn amdano, mae'n debygol iawn (yn gam neu'n gymwys) y penderfynnir nad ydych yn cyflawni digon i haeddu cefnogaeth. Felly cesiwch gael sylw yn y wasg ac yn y blaen a chadw copïau o'r daernau sy'n cael eu cyhoeddi fel tystiolaeth o'ch gweithgarwch. Gallwch brintio tudalennau o wefan [www.steddfota.org](http://www.steddfota.org) sy'n rhoi sylw i'ch eisteddfod chi.

### **Ceisio am grantiau**

Mae ansawdd eich cais a'r dull o'i gyflwyno yn bwysig oherwydd, yn ymarferol, anodd iawn yw gwahaniaethu rhwng y cynnwys a'r dull o'i gyflawnio. Drwy ddefnyddio ychydig o dactegau syml, bydd gennych gyfle gwell o lawer i lwyddo. Ceisiwch gael cymorth rhywun sydd â phrofiad o wneud ceisiadau os ydych yn teimlo bod angen hynny.

### **Gwneud ceisiadau i gyrff ariannu**

Ceir llawer o ymddiriedolaethau sy'n rhoi grantiau nad ydynt yn defnyddio ffurflenni, na hyd yn oed yn rhoi canllawiau – cais mewn ysgriflen yw'r cwbl y maent yn ei ofyn. Nid oes unrhyw reolau pendant, ond dyma awgrym o fframwaith ar gyfer cais.

#### *Pwyntiau cyffredinol:*

- Byddwch yn gryno – ni ddylai'r llythyr a'r cynnig fod yn fwy na 3 - 4 o dudalennau o hyd
- Gwnewch ymchwil yn gyntaf – dylech ddarganfod cymaint ag y gallwch am y rhoddwr, ei diddordebau a'i batrwm rhoi cyn ysgrifennu ato
- Dylech gyfeirio'ch cais at unigolyn sydd wedi'i enwi – gofalwch fod y manylion diweddaraf gennych
- Defnyddiwch iaith syml, glir a dealladwy
- Os byddwch yn atodi gwybodaeth ategol, cofiwch nad oes sicrwydd y bydd rhywun yn ei ddarllen
- Rhaid rhoi popeth hanfodol yng nghorff y cynnig (nid mewn atodiad).

#### *Cynnwys y cynnig*

- Teitl (mae'n bosib nad yw pawb yn gwybod beth yw eisteddfod - felly dylech roi esboniad byr e.e. diwrnod o gystadleuthau i blant ac oedolion lle dyfernir gwobrau gan banel o feirniaid. Mae'r cystadlaethau yn cynnwys cystadlaethau llwyfan (canu, llefaru, dawnsio, action) a chystadlaethau gwaith cartref (llenyddol, celf, ffotograffiaeth ayb). Mae eisteddfodau yn rhan o'n traddodiad yng Nghymru ac yn gyfle i bobl ifanc feithrin hyder, sgiliau perfformio'n gyhoeddus ac yn gaffaeliad i'w datblygiad personol. Mae eisteddfodau yn meithrin arweinwyr y dyfodol.

#### *Crynodeb o'r prosiect*

- Rhaid i'r crynodeb gyfleu prif bwyntiau'r prosiect, a dangos ei gysylltiad â diddordebau'r rhoddwr. Efallai mai dim ond y rhan hon o'r cais y bydd yn ei ddarllen. Gellir cynnwys y crynodeb yng nghorff y cynnig neu yn y llythyr anfonir gydag ef.



## Rhagymadrodd

- Ar ôl brawddeg syml i ddweud pwy ydych a beth rydych yn ei wneud, rhowch unrhyw wybodaeth a fydd yn hybu eich hygrededd, ac yn argyhoeddi cyrff ariannu eich bod yn gymwys i redeg prosiect. Pa waith a wnaethoch yn y gorffennol, pa lwyddiannau mawr a gawsoch? (e.e trefnu eisteddfod lwyddiannus ers chwarter canrif ac yn y blaen.)

## Datganiad am broblemau

- Rhaid ichi egluro pam yr ydych yn ceisio am gefnogaeth ariannol.
- Soniwch am bobl (e.e. y nifer sy'n dod i gystadlu/wrando) – dangoswch eich bod yn cael eich arwain gan y galw
- Rhowch ddisgrifiad o'r broblem (hynny yw beth bynnag yr ydych yn gofyn am arian tuag ato). Nodwch yr effaith o beidio medru cael y gefnogaeth rydych yn gofyn amdano.
- Nodwch fod angen gweithredu ar frys a bod dadl dros ymyrryd ar unwaith
- Dangoswch fod modd datrys y broblem. Rhowch dystiolaeth i ategu beth yr ydych yn ei ddweud. Un modd i wneud hynny yw defnyddio ystadegau e.e. os ydych yn ceisio am grant i farchnata eich eisteddfod nodwch effaith marchnata e.e. yn sgil hysbysybu yn y papur lleol roedd 25% yn fwy o wedi cystadlu.

## Cyllideb

- Efallai y bydd angen ichi atodi dadansoddiad manwl o'r costau. Yn sicr dylai unrhyw gais gynnwys crynodeb o gyllideb eich eisteddfod. Os ydych yn ymgeisio am grant dros sawl blwyddyn, dangoswch y costau ar gyfer pob blwyddyn. Peidiwch ag anghofio chwyddiant - mae gan rai cyrff ariannu ffyrdd penodol o ddelio â hynny ac, os yw'n berthnasol, eglurwch yr angen i adennill yr holl gostau.
- Wrth lunio'ch cyllideb, peidiwch ag anghofio amser sydd wedi'i roi am ddim gan wirfoddolwyr. Gellir defnyddio hwnnw'n aml i ddarparu 'arian cyfatebol' a dangos i gyrff ariannu eich bod yn gallu darparu'r adnoddau angenrheidiol. Wrth brisio amser gwirfoddolwyr, rhaid nodi cyfradd addas yr awr sy'n adlewyrchu'r gwasanaethau y maent yn eu rhoi.
- Os nad ydych yn gofyn am y swm llawn, rhaid ichi ddangos o ble rydych yn bwriadu cael y gweddill. Os yw'r prosiect yn un parhaol, rhaid ichi egluro o ble rydych yn bwriadu cael arian i oroesi. Mae bob amser yn beth da dangos eich bod yn trefnu gweithgaredd codi arian er mwyn helpu eich hunain – gellid defnyddio cynllun gwerthu tocynnau raffl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn un enghraifft.
- Peidiwch â bod yn swil ynglŷn â gofyn am swm penodol. Eglurwch pam yr ydych yn credu y dylai'r corff ariannu ymddiddori yn eich prosiect – beth yw'r cysylltiad rhwng eich eisteddfod a'r meysydd y mae'r corff yn fodlon/fel arfer yn eu cefnogi.

## Sut i ddod o hyd i ffynonellau ariannu

Mae gwefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn rhestru nifer o ffynonellau lleol a chenedlaethol. [www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk) > Gwybodaeth > Tafenni Gwybodaeth > Dod o hyd i arian a'i gael

Mae'n werth cysylltu â'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol - mae ganddynt fasdata o ffynonellau arian sy'n berthnasol i'r gwahanol siroedd yng Nghymru.

### **ABERTAW**

Carol Green  
Cyfarwyddwr  
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe  
Canolfan Gweithredu Gwirfoddol  
7 Heol Walter  
Abertawe SA1 5NF  
Ffôn: 01792 544000 Ffacs: 01792 544037  
[scvs@scvs.org.uk](mailto:scvs@scvs.org.uk)  
[www.scvs.org.uk](http://www.scvs.org.uk)

### **SIR BENFRO**

Sue Leonard  
Cyfarwyddwr  
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro  
36-38 High Street  
Hwlfordd  
Sir Benfro SA61 2DA  
Ffôn: 01437 769422 Ffacs: 01437 769431  
[enquiries@pavs.org.uk](mailto:enquiries@pavs.org.uk)

**BLAENAU GWENT**

Lynn Clubb  
Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Blaenau Gwent)  
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent  
16A Market Square  
Brynmawr  
Blaenau Gwent NP23 4AJ  
Ffôn: 01495 315626 Ffacs: 01495 315339  
lynn.clubb@gavowales.org.uk

**CAERFFILI**

Mike Bridgman  
Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Caerffili)  
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent  
Uned 1A, Llawr Gyntaf  
Withey Dyffryn Court  
Dyffryn Business Park  
Ystrad Mynach,  
Caerffili CF82 7TT  
Ffôn: 01443 863540 Ffacs: 01443 812292  
mike.bridgman@gavowales.org.uk

**CAERDYDD**

Sheila Hendrickson-Brown  
Prif Weithredydd  
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd  
Llawr Gwaelod, Tŷ Brunel  
2 Plas Fitzalan  
Caerdydd CF24 0EB  
Ffôn: 029 2048 5722 Ffacs: 029 2046 4196  
enquiries@c3sc.org.uk  
www.c3sc.org.uk

**CASNEWYDD**

Jennifer Render (Cyfarwyddwr)  
Karen Vowles (Cyfarwyddwr Cynorthwyol  
Casnewydd)  
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent  
Tŷ Derwen, Heol yr Eglwys  
Casnewydd NP19 7EJ  
Ffôn: 01633 241550 Ffacs: 01633 241583  
jennifer.render@gavowales.org.uk  
karen.vowles@gavowales.org.uk

**CASTELL NEDD PHORT TALBOT**

Gaynor Richards (Cyfarwyddwr)  
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol  
Castell Nedd a Phort Talbot  
Tŷ Margaret Thorne,  
17-19 Stryd Alfred  
Castell Nedd SA11 1EF  
Ffôn: 01639 631246 Ffacs: 01639 643368  
info@nptcvsc.org.uk

**CEREDIGION**

Hazel Lloyd Lubran  
Cyfarwyddwr  
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion  
Bryndulais, 67 Stryd y Bont  
Llanbedr Pont Steffan  
Ceredigion  
SA48 7AB  
Ffôn: 01570 423232 Ffacs: 01570 422427  
hazel@cavo.org.uk  
www.cavo.org.uk

**CONWY**

Wendy Jones  
Prif Swyddog  
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy  
8 Riviere's Avenue  
Bae Colwyn, Conwy LL29 7DP  
Ffôn: 01492 534091 Ffacs: 01492 535397  
wendyjones@cvsc.org.uk  
www.cvsc.org.uk

**SIR DDINBYCH**

John Watkin  
Prif Swyddog Gweithredol  
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych  
Canolfan Naylor Leyland  
Stryd y Ffynnon, Rhuthun  
Sir Ddinbych LL15 1AF  
Ffôn: 01824 702441 Ffacs: 01824 705412  
john@dvsc.co.uk

**SIR Y FFLINT**

Kieran Duff (Prif Swyddog)  
Parc Busnes Yr Wyddgrug Heol Wrecsam Yr Wyddgrug  
Sir y Fflint CH7 1XP  
Ffôn: 01352 744000 Ffacs: 01352 750531  
info@flvc.org.uk

**SIR FYNWY**

Glenda Genner (Cyfarwyddwr Cynorthwyol)  
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent  
Holly House, Llancayo Court  
Llancayo, Usk  
Sir Fynwy NP15 1DY  
Ffôn: 01291 672352  
glenda.genner@gavowales.org.uk

**MERTHYR TUDFUL**

Ian Davy (Cyfarwyddwr)  
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful  
Canolfan Gweithredu Gwirfoddol  
89-90 Stryd Fawr  
Merthyr Tudful  
CF47 8UH  
Ffôn: 01685 353900 Ffacs: 01685 353909  
ian.davy@vamt.net  
www.vamt.net

**SIR GAERFYRDDIN**

Mandy Jones (Cyfarwyddwr Gweithredol)  
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol  
Y Mwnt  
18 Heol y Frenhines  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1JT  
Ffôn: 01267 245555 Ffacs: 01267 245550  
mandy.jones@cavs.org.uk  
www.cavs.org.uk

**GWYNEDD**

Bethan Russell Williams  
Prif Swyddog  
Mantell Gwynedd  
23-25 Y Bont Bridd  
Caernarfon  
Gwynedd LL55 1AB  
Ffôn: 01286 672626 Ffacs: 01286 678430  
enquiries@mantellgwynedd.com  
Ellen ap Dafydd  
Mantell Gwynedd  
Yr Hen Orsaf Heddlu  
Stryd Lombard  
Dolgellau  
LL40 1SB  
Ffôn: 01341 422575  
ellenapdafydd@mantellgwynedd.com

**BRO MORGANNWG**

Cyfarwyddwr  
Canolfan Gwasanaethau  
Gwirfoddol y Fro  
Uned 11,  
Canolfan Fenter Cymunedol y Barri  
Ffordd Skomer  
Y Barri CF62 9DA  
Ffôn: 01446 741706 Ffacs: 01446 421442  
vcvs@valecvcs.org.uk

**PEN-Y-BONT AR OGWR**

Heidi Bennett (Cyfarwyddwr)  
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol  
Pen-y-Bont ar Ogwr  
112-113 Stryd Masnach  
Maesteg  
Pen-y-Bont CF34 9DL  
Ffôn: 01656 810400  
heidibennett@bavo.org.uk

**POWYS**

Carl Cooper (Cyfarwyddwr Gweithredol)  
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys  
Marlow, Cilgant y De  
Llandrindod Wells  
Powys LD1 5DH  
Ffôn: 01597 822191 Ffacs: 01597 828 675  
enquiry@pavo.org.uk

**RHONDDA CYNON TÂF**

Simon James (Cyfarwyddwr Gweithredol)  
Interlink  
6 Melin Corrwg  
Heol Caerdydd, Upper Boat  
Pontypridd,  
Rhondda Cynon Taf  
CF37 5BE  
Ffôn: 01443 846200  
sjames@interlinkrct.org.uk

**TORFAEN**

Peter Kennedy (Prif Swyddog)  
Cynghrair Gwirfoddol Torfaen  
Adeiladau Portland, Ffordd Commercial  
Pontypŵl  
Torfaen NP4 6JS  
Ffôn: 01495 742420  
peter@tvawales.org.uk

**WRECSAM**

John Gallanders  
Prif Swyddog  
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam  
21 Stryd Egerton  
Wrecsam LL11 1ND  
Ffôn: 01978 312556  
Ffacs: 01978 352046  
info@avow.org

**YNYS MÔN**

John Jones (Prif Swyddog)  
Medwrn Môn  
Neuadd y Dref  
Sgwâr Bulkeley  
Llangefni Sir Ynys Môn LL77 7LR  
Ffôn: 01248 724944  
Ffacs: 01248 750149  
post@medrwnmon.org

Hefyd, mae'r canlynol yn rhestri ymddiriedolaethau ledled Prydain gan nodi rhai sydd â diddordeb arbennig mewn cefnogi digwyddiadau mewn ardaloedd arbennig o Gymru.

### **A Guide to the Major Trusts**

Mae'r arweiniad hwn, sydd mewn dwy gyfrol, yn gymorth hanfodol i bawb sy'n ymgeisio am arian i elusen gan ymddiriedolaethau a sefydliadau sy'n rhoi grantiau. Mae'r gyfrol gyntaf yn cynnwys 400 o'r ymddiriedolaethau mwyaf a'r ail yn trafod 1,200 o rai eraill.

### **The Directory of Grant Making Trusts**

Mae wedi'i gynhyrchu gan DSC ar y cyd â CAF, ac mae'n cynnwys yr ymddiriedolaethau a'r sefydliadau mwyaf sy'n rhoi grantiau yn y DU.

### **The Grant-making Trusts CD-ROM**

Mae'r CD-ROM hon yn cynnwys gwybodaeth am fwy na 4,500 o ymddiriedolaethau sydd yng nghronfeydd data DSC a CAF.

[www.trustfunding.org.uk](http://www.trustfunding.org.uk)

Drwy dalu tanysgrifiad ar gyfer defnyddio'r wefan hon, ceir mynediad at ystod o wybodaeth sy'n debyg i'r hyn sydd ar y CD-ROM uchod, ond ceir hysbysiadau rheolaidd hefyd am y manylion diweddaraf.